NEPEAN (ganwyd BELLIS), MARY EDITH (1876 - 1960), nofelydd

Enw: Mary Edith Nepean
Dyddiad geni: 1876
Dyddiad marw: 1960
Priod: Molyneux Edward Nepean
Rhiant: Mary Bellis
Rhiant: John Bellis
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: nofelydd
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Sally Roberts Jones

Ganwyd yn Llandudno, Caernarfon, 1876 yn ferch i John Bellis, un o gynghorwyr sir Gaernarfon a Mary ei wraig. Cafodd ei haddysg gartref, astudiodd gelfyddyd gyda Robert Fowler, ac yn ddiweddarach cafodd beth o'i gwaith ei arddangos mewn nifer o arddangosfeydd. Priododd yn 1899 Molyneux Edward Nepean, un o deulu o weision sifil uchel eu graddfa, ac aeth i Loegr i fyw, gan gymdeithasu mewn cylchoedd llenyddol yn Llundain. Yn 1932 cyhuddodd Caradoc Evans o enllib yn ei herbyn yn ei nofel *Wasps* (1933), a gorfododd iddo wneud newidiadau yn y llyfr cyn ei gyhoeddi. Cymerodd ran yn y bywyd cyhoeddus, gan ddod yn ' Commandant ' adran yn y Groes Goch yn swydd Caint, a theithiodd yn helaeth yn y Dwyrain Agos a'r Balcaniaid gan gymryd diddordeb arbennig ym mywyd sipsiwn Transilfania.

Cyhoeddwyd ei nofel gyntaf, *Gwyneth of the Welsh Hills*, yn 1917, sy'n dangos dylanwad arddull Allen Raine (Anne Adalisa Puddicombe) a Caradoc Evans. Dilynwyd hon gan 34 o nofelau rhamantaidd, ysgafn, bron i gyd gyda chymeriadau a chefndir Cymreig. Ysgrifennodd un teithlyfr, *Romance and realism in the Near East* (1933), ynghyd â llawer o erthyglau poblogaidd i'r wasg newyddiadurol. Bu farw ei g r yn 1948. Bu hithau farw 23 Mawrth 1960 a chladdwyd hi ym mynwent Y Gogarth, Llandudno.

Awdur

Sally Roberts Jones

Ffynonellau

Who was who?

T. Ll. Williams, *Caradoc Evans* (Caerdydd 1970) (1970), 93-4

Llandudno and District Advertiser, 26 Mawrth a 2 Ebrill 1960

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Edith Nepean

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 34243903

Wikidata: Q20566881

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu